



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22/09/2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Testun: Rheoli Perfformiad Staff GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer Rheoli Perfformiad Staff GwE i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

2.1 Diwygiwyd polisi Rheoli Perfformiad Staff GwE er mwyn iddo adlewyrchu'n well blaenoriaethau'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, a'r strwythur atebolrwydd a staff newydd.

2.2 Bydd holl staff GwE yn mynd drwy drefn Rheoli Perfformiad (RhP) flynyddol yn yr Hydref pob blwyddyn. Yna, adolygir hyn pob chwarter i fonitro cynnydd, hyd yma, tuag at y targedau a'r amcanion a gytunwyd yn y RhP blynyddol.

2.3 Dylai'r adolygiadau rheoli perfformiad chwarterol gyd-fynd â threfn fonitro chwarterol blaenoriaethau Cynllun Busnes GwE, a rhoi cyfle i edrych ar berfformiad personol a chyflawniadau allweddol hyd yma. Bydd hefyd yn gyfle i adolygu, a diwygio, yr amcanion cyfredol os oes angen.

2.4 Bydd RhP staff yn cyd-fynd â Chynllun Busnes GwE. O ran yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, bydd y targedau RhP y cytunir arnynt hefyd yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella ysgolion, yn ymwneud â'r ysgolion a gefnogant.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r polisi diwygiedig.

4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE wrth adolygu'r polisi.

8.0 Atodiadau

8.1 Polisi Rheoli Perfformiad Staff GwE

8.2 Ffurflen Rheoli Perfformiad Staff GwE

8.3 Adolygiad cyn Rheoli Perfformiad Staff GwE

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.